# SL(5)538 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("y GDCG").

Mae erthygl 3 o'r GDCG, ac Atodlen 2 iddo, yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir mewn cysylltiad â datblygu penodol. Pan roddir yr hawliau hynny, nid yw cais am ganiatâd cynllunio yn ofynnol.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 2 i'r GDCG. Mae'n mewnosod Rhan 3A newydd (Adeiladau Dros Dro a Newid Defnydd at Ddibenion Argyfwng Iechyd y Cyhoedd) i ganiatáu datblygu penodol yng Nghymru at ddibenion atal, rheoli neu liniaru effeithiau argyfwng iechyd y cyhoedd yn y Deyrnas Unedig, neu gymryd camau eraill mewn cysylltiad ag argyfwng o'r fath.

Y datblygu a ganiateir yw newid defnydd adeilad neu dir i Ddosbarth C2 (Sefydliadau preswyl) neu Ddosbarth D1 (Sefydliadau amhreswyl) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd)1987, a darparu adeiladau neu strwythurau eraill.

Mae'r datblygu a ganiateir yn ddarostyngedig i amodau a chyfyngiadau sydd hefyd wedi eu nodi yn y Rhan 3A newydd.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad**

Mae'r rheol 21 diwrnod o dan y Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (a ymgorfforwyd yn Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) yn darparu y dylid gosod offerynnau 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym. Mae hyn yn galluogi Aelodau i geisio diddymu offerynnau o'r fath cyn iddynt gael effaith, am y gall achosi dryswch os diddymir deddfwriaeth ar ôl ei roi ar waith.

Gosodwyd y Gorchymyn ar 14 Ebrill, wedi iddo ddod i rym eisoes ar 10 Ebrill. Yn yr achos hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr amgylchiadau'n cyfiawnhau torri'r rheol 21 diwrnod. Rydym yn nodi'r llythyr a anfonwyd at y Llywydd gan Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, dyddiedig 14 Ebrill 2020. Noda hwn:

Mae angen i'r Gorchymyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd, i alluogi cyrff gwasanaeth iechyd i wneud gwaith datblygu yn unol â Rhan 3A. Byddai hyn yn galluogi, er enghraifft, sefydlu ysbytai dros dro a gorsafoedd profi ar dir nad yw awdurdod lleol na'r Goron yn berchen arno nac yn ei reoli, megis arenâu chwaraeon preifat.

Os nad yw'r Gorchymyn yn dod i rym bydd yn ofynnol i gyrff gwasanaeth iechyd wneud cais am ganiatâd cynllunio i wneud gwaith datblygu o'r fath. Mae'r Gorchymyn yn ceisio osgoi'r oedi anochel a fyddai'n gysylltiedig â gwneud a phrosesu ceisiadau o'r fath. O ystyried yr amgylchiadau ynghylch y clefyd COVID-19, sydd yn y categori "argyfwng iechyd y cyhoedd" at ddibenion y Gorchymyn, yn enwedig y ffordd gyflym mae'n datblygu, credir bod rheswm a chyfiawnhad dros beidio â dilyn y rheol 21 diwrnod yn yr achos hwn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**29 Ebrill 2020**